

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**  
**Hysbysiad Preifatrwydd**  
**ADDYSG DDEWISOL YN Y CATREF**

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Diogelu GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth**

**Lisa Richards** – Swyddog Diogelu Data

**Sam Bishop** – Swyddog Diogelu Data a Chofnodion

**Rebecca Walsh** - Swyddog Diogelu Data a Chofnodion  
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,  
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk

01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd :	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Education Department
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Sarah Bowen
Cyfeiriad:	Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol pan fydd rhieni yn penderfynu darparu addysg i'w plant yn y cartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut ydym yn cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol a gasglwn. Y mae'n ofynnol ein bod ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn eich hysbysu chi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os wnawn ni hynny byddwn yn sicrhau fod copi o'r hysbysiad hwn wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd ac hysbysiad preifatrwydd cyflawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data a gellir cael gafael arno ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut fydd yr Adran Addysg yn defnyddio data personol pan fydd yn ymwybodol fod plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref. Bydded yn ymwybodol nad yw'r Adran Addysg yn gyfrifol am ddarparu addysg ddewisol yn y cartref ac nid oes unrhyw oblygiad ar yr Adran i'w gefnogi.

## **1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr a'r cyngor sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys nifer o wahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Wrth gyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at y Gwasanaeth Addysg ddewisol yn y cartref a leolir oddi fewn i'r Adran Addysg. Maen nhw'n gyfrifol am brosesu'r data personol ar gyfer y gwasanaethau a fanylir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i blant, pobl ifanc a'u rhieni neu warcheidwaid o'r Gwasanaeth Addysg ddewisol yn y cartref, sy'n cynnwys plant sydd o oedran ysgol ond sy'n cael eu haddysgu yn y

cartref.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r swyddog gyda'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Canolfan Ddinesig  
Stryd y Castell  
Merthyr Tudful  
CF47 8AN

E-bost: [data.protection@merthyr.gov.uk](mailto:data.protection@merthyr.gov.uk)

Ffôn: 01685 725000

## 2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

Manylion personol fel enw, rhyw y person, oedran, dyddiad geni, manylion cyswllt, iaith ddewisol ac unrhyw ieithoedd ychwanegol.

Mae'n bosibl y byddwn yn cadw gwybodaeth sy'n berthnasol i gymhwysedd plentyn i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim a gaiff ei asesu yn seiliedig ar incwm a hawl am fudd-daliadau.

Nid ydym yn gofyn am y wybodaeth hon fel mater o drefn ond mae'n bosibl y byddwn yn dyfod yn ymwybodol o statws cyflogaeth rhieni neu warcheidwaid a theitl swydd.

Byddwn yn casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i hanes addysgiadol eich plentyn, gall hyn gynnwys enwau'r ysgolion a fynychwyd ganddo yn flaenorol a'r presenoldeb, cyrhaeddiad (gan gynnwys a yw'r plentyn wedi cael ei asesu fel un mwy abl a thalentog) a gwybodaeth am waharddiad.

Hanes addysg ddewisol yn y cartref (HDdC) gan gynnwys y dyddiad dechreuodd ei HDdC ac unrhyw gyfathrebu gyda chi, adroddiadau ymweld a thystiolaeth o'r addysg briodol sy'n cael ei chyflenwi.

Data ffordd o fyw fel ethnigrwydd, crefydd, neu a yw eich plentyn yn adnabod ei hun fel un o gefndir Teithiwr Sipsi Roma, bydd hyn hefyd yn cynnwys cenedligrwydd eich plentyn a'r wlad y cafodd ei eni ynddi.

Mae'n bosibl y byddwn yn cadw gwybodaeth sy'n berthnasol i ymglymiad â gweithwyr proffesiynol eraill (fel Presenoldeb a Chynhwysiant. Cymorth Cynnar, Gofal Cymdeithasol, AAA). Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn Adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

### 3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn cael y data personol hwn oddi wrth rieni neu warcheidwaid, y plant, a ble y bo'n gymwys yr ysgol a fynychwyd yn flaenorol. Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i:

- gadw cofnod o blant ym Merthyr Tudful y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref
- darparu cyngor a chanllawiau i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref
- hysbysu teuluoedd am sut i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau o asiantaethau eraill a fyddai yn gyffredinol yn cael eu cyflenwi gan yr ysgol
- darparu cyngor a chynorthwyo teuluoedd sy'n gofyn am gefnogaeth wrth ddychwelyd plant i'r ysgol neu ddynodi lle mewn ysgol
- ein galluogi ni i wneud trefniadau i sefydlu pwy yw'r plant heb eu cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg briodol fel arall

Ar ôl casglu'r wybodaeth hon caiff ei chadw mewn cronfa ddata wedi ei diogelu gan gyfrinair a leolir ar ein gwasanaethwyr mewnol. Rydym hefyd yn cynnal Cronfa Ddata Disgyblion Coll a gaiff ei defnyddio i geisio canfod lleoliad plentyn.

Dim ond pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan Reoliadau GDPR a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Pan fydd angen i ni gydymffurfio â'n hobblygiadau cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Addysg 1996

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Plant 1989

Rydym yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd. Byddwn hefyd yn prosesu data personol at ddibenion swyddogol fel darparu ffurflenni treth i Lywodraeth Cymru, ac i'n galluogi ni i gyfrannu at yr ymrwymadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei ganllawiau â'r teitl Addysg Ddewisol yn y Cartref 2017.

Os oes angen i ni gasglu categori arbennig neu wybodaeth bersonol sensitif, rydym yn dibynnu ar resymau o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd fel cydraddoldeb neu gyfle neu driniaeth.

Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn prosesu eich data personol pan fo'n angenrheidiol am fuddion cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac nad yw eich buddion chi na'ch hawliau sylfaenol yn gwrthwneud y buddion hynny.

### 4. SUT YDYM NI'N RHANNU EICH DATA PERSONOL

Gallwn rannu eich data personol ar draws yr Adran Addysg er mwyn eich darparu chi â'r gefnogaeth sy'n ofynnol arnoch, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ar draws Adrannau

eraill y Cyngor sy'n cynnwys:

Darpariaeth Feithrin Statudol yr Awdurdod Lleol  
Sefydliadau Meithrin yr Awdurdod Lleol  
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant  
Adran Llesiant Cymunedol  
Adran Teuluoedd yn Gyntaf  
Adran Gwasanaethau Addysg  
Uned Ddiogelu  
Panel Cefnogi Uwch Dechrau'n Deg sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Cwm Taf,  
Tîm y Blynyddoedd Cynnar Dechrau'n Deg (yn cynnwys Seicolegydd Addysg, Athro  
Ymgynghorol, Swyddogion Datblygu a Swyddog Datblygu Prosiect) Iaith a Lleferydd  
Dechrau'n Deg, Prif Ffisiotherapydd Peditrig a Nyrs Arbenigol i Blant ag Anghenion  
Ychwanegol  
Seicolegydd Addysg Dechrau'n Deg

Gellir hefyd gael achlysuron pan fo'n ofynnol i ni rannu eich data personol gyda phartïon trydydd parti allanol a allai gynnwys:

Sefydliadau partner fel meddygon, pediatryddon, therapyddion iechyd a swyddogion  
iechyd meddwl  
Hyb Diogelu Aml Asiantaethol Cwm Taf (sy'n cael ei gyfeirio ato fel MASH yn aml) os oes  
gennym unrhyw bryderon ynghylch diogelwch eich plentyn neu ddiogelwch y rheini o'ch  
cwrpas chi neu eich plentyn.

Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan allai fod yn angenrheidiol i rannu gwybodaeth gyda'r Heddlu,  
Gorchymyn Cam-fanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein ac Adrannau Llywodraeth Ganolog, e.e.  
Y Swyddfa Gartref. Rydym yn gwneud hyn er mwyn diogelu llesiant plant, ac i sefydlu statws  
mewnfudo

Mae hefyd angen i ni ddarparu cofnodion blynyddol i'r Uned Data Llywodraeth Leol (Data Cymru).  
Mae'r Cyngor wedi dechrau Cytundeb Datgelu Data gyda'r Uned Data Llywodraeth Leol sy'n  
berthnasol i ffurflenni treth sy'n cael eu cyflenwi sy'n berthnasol i HDdC. Adran oddi fewn i  
Llywodraeth Cymru yw Data Cymru.

Byddwn yn rhannu setiau cyflawn o ddata personol gyda Llywodraeth Cymru at ddibenion  
ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella'r gofal a'r gefnogaeth a  
ddarperir i blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref yng Nghymru. Mae'r data hwn yn  
cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag ymchwil i helpu i ddeall a gwella ansawdd addysg i  
blant a phobl ifanc fel eu bod yn gallu meithrin cyswllt â gwasanaethau i gynnal a datblygu ein  
hymarfer proffesiynol.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wlad y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os  
byddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu o hynny cyn gynted â phosibl. Os byddwn yn  
gwneud hynny, gallwch ddisgwyl graddfa debyg o ddiogelu o ran eich gwybodaeth personol.

## **5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Dim ond am mor hir ag sy'n angenrheidiol y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac er mwyn cyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu ar ei gyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd yn ôl. Caiff y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylir yn yr hysbysiad hwn ei gadw o ddyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc nes iddo gyrraedd 25 oed, ac eithrio Datganiad am Anghenion Addysgol a gedwir am 35 mlynedd, ac ar ôl hynny a gaiff ei archifo neu ei ddinistrio'n ddiogel.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)).

## **6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL**

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll neu gael ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd heb ei awdurdodi, neu ei haddasu neu ddatgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd â'r busnes i wybod. Dim ond yn dilyn ein cyfarwyddyd ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw dorcyfraith o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am amheuaeth o dorcyfraith pan fo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

## **7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL**

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych yr hawl o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi, caiff manylion am yr hawliau hyn eu canfod yn yr hysbysiad preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU am unrhyw faterion diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)  
2<sup>il</sup> Lawr  
Tŷ Churchill  
Churchill Way  
Caerdydd  
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421  
E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

## **8. MANYLION PELLACH**

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol gan gynnwys diogelu data, cadw data, hawliau unigolion, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).